

GALWAD

GWYLIAU VR

A ALLAI REALITI RHITHWIR FOD Y
FFORDD ORAU I WELD Y DDAEAR HEB
GOSTIO'R DDAEAR?



Eco-Schools



Eco-Sgolion



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth Gefndir

Mae tua 8% o gyfanswm allyriadau carbon y byd yn dod o dwristiaeth. Mae allyriadau carbon yn dod o lety, hedfan, cludiant a chyfleusterau eraill sydd eu hangen i gynnal twristiaid. Cyn y pandemig COVID-19 amcangyfrifwyd y byddai'r galw am deithiau hedfan yn treblu rhwng 2020 a 2050 gyda niferoedd cynyddol o bobl yn hedfan i ymweld â gwahanol rannau o'r byd.

Mae twristiaeth yn sector sy'n tyfu yn yr economi fyd-eang a gyda hynny daw heriau i seilwaith lleol, cymunedau, a'r amgylchedd. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud gan y diwydiant twristiaeth i hyrwyddo ac annog teithio gwyrdd, gyda chynlluniau gwobrau amgylcheddol, teithio ar drenau, twristiaeth adfywiol a llety ecologyfeillgar i gyd yn dod yn fwy poblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, wrth i nifer y teithwyr ledled y byd gynyddu, gallwn ddisgwyl i'r effaith ar ein hamgylchedd gynyddu hefyd ac efallai mai'r ateb yw technoleg newydd.

Mae technoleg Realiti Rhithwir (VR) wedi bod o gwmpas ers canol y 1950au, ond dim ond yn y degawd diwethaf, pan ddaeth y dechnoleg ar gael yn fasnachol, mae ei defnydd bob dydd mewn addysg, cymdeithasu ac fel arf ar gyfer gweld a deall y byd wedi datblygu. Trwy wisgo set pen VR gallwch ymgolli yng ngolygfeydd a synau byd arall, boed yn real neu'n ffantasi, ac mewn rhai achosion hyd yn oed ryngweithio â gwrthrychau a phobl.

Edrych ar yr [erthygl hon ar dwristiaeth VR \(theguardian.com\)](#) i ddarganfod mwy am ei dwf yn ystod y pandemig. A allai technoleg newydd a thechnoleg ddatblygol fod yn ateb i dwristiaeth werdd? Ai Realiti Rhithwir yw'r ffordd orau yn economaidd ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd o weld y byd yn y dyfodol?

Gweithgaredd

Dychmygwch ymweld â Phyramidiau'r Aifft, caiacio yn yr Antarctig a gwersylla allan yng nghoedwig law'r Amazon i gyd mewn diwrnod? Mae hyn i gyd bellach yn bosibl gan ddefnyddio meddalwedd/setiau pen Realiti Rhithwir (VR) a all eich cludo i rywle hollol wahanol, heb fynd ar yr un awyren. Eich her fel dosbarth yw trafod y canlynol:

Technoleg Realiti Rhithwir (VR) yw'r ffordd orau i weld y Ddaear heb gostio'r Ddaear.

- Rhannwch eich dosbarth yn grwpiau, a gofynnwch i hanner y grwpiau siarad o blaid y cynnig a hanner y grwpiau i siarad yn erbyn y cynnig.

- Rhowch amser i bob grŵp drafod syniadau a chasglu cynifer o ffeithiau â phosibl. Gallant ddefnyddio'r 'daflen pethau i'w hystyried' (isod) i helpu gyda'u hymchwil.
- Dylai pob grŵp drefnu eu syniadau a defnyddio 6/7 o'u pwyntiau i greu a pharatoi araith.
- Cyflwynwch yr areithiau i'r dosbarth.
- Trafodwch y pwyntiau a drafodwyd fel dosbarth a phenderfynwch fel dosbarth pa le allai fod gan dechnoleg yn y dyfodol.

Gweithgaredd ymestyn

Sefydlwch asiantaeth deithio realiti rhithwir, sut fyddwch chi'n hyrwyddo teithio realiti rhithwir i'ch cwsmeriaid? Pa deithiau VR fydddech chi'n eu cynnig?

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dibenion

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol

MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig

Y Dyniaethau

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredu dynol.

Nodau Byd-eang



[Nod 7: Ynni Fforddiadwy a Glân](#)

[Nod 12: Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol](#)

[Nod 11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy](#)

Pethau i'w cofio:

Mae pobl yn teithio i weld, blasu a rhoi cynnig ar bethau newydd, ar gyfer tywydd da ac i dreulio amser gyda theulu/frindiau.



Mae twristiaeth yn creu miloedd o swyddi i bobl leol ond yn aml gall swyddi twristiaeth fod â chyflogau isel a thymhorol sy'n golygu na all pobl leol ddod o hyd i waith trwy gydol y flwyddyn.

Mae gor-dwristiaeth yn broblem a welir gan gyrchfannau twristaidd poblogaidd sydd â mewnlifiad o ymwelwyr. Gall gael effaith negyddol ar fywydau'r rhai sy'n byw yno. Mae'n rhoi pwysau ar gyfleusterau, trafnidiaeth gyhoeddus ac adnoddau fel ynni a dŵr.



Mae rhai pobl yn poeni bod VR yn ddrud neu'n ofni teimlo'n sâl / ynysig wrth ei ddefnyddio.

Gall twristiaeth roi pwysau ar ddefnydd tir lleol a gall achosi colli cynefinoedd naturiol



Mae 8% o allyriadau carbon y byd yn dod o dwristiaeth, ac mae'r galw yn debygol o gynyddu ar draws y byd yn y degawd nesaf. Mae hediadau, llety a chyfleusterau eraill sydd eu hangen ar dwristiaid i gyd yn cyfrannu at yr allyriadau carbon hyn.

Mae technoleg realiti rhithwir ar gael yn eang ac yn datblygu drwy'r amser, mae gan 4% o gartrefi (2020) fynediad at offer VR, mae'r ffigur hwn yn uwch ymhlith pobl ifanc o dan 35 oed.

Mae costau gwyliau i deuluoedd yn ddrud. Amcangyfrifir bod gwariant cyfartalog ar wyliau teuluol yn £2417.



Erbyn 2030, disgwylir cynnydd o 25% mewn allyriadau CO2 o dwristiaeth o gymharu â 2016, o 1,597 miliwn o dunelli i 1,998 miliwn o dunelli.

Mae Twristiaeth Adfywiol (gan adael lle yn well nag yr oedd cyn i chi gyrraedd) yn dod yn fwyfwy poblogaidd a gall fod yn ddewis cynaliadwy arall

Mae awyrennau hydrogen bellach yn cael eu treialu felly byddent yn cynhyrchu allyriadau carbon sero.

GALWAD



CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB
33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767
keepwalestidy.cymru
info@keepwalestidy.cymru



Eco-Schools



Eco-Sgolion

